# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr-Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR PENODIADAU** | **APPOINTMENTS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 10 MAWRTH 2021**<br>**am 2.00 o'r gloch** | **WEDNESDAY, 10 MARCH 2021**<br>**at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | **VIRTUAL MEETING** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol/The Independent Group**

Richard A. Dew, Ieuan Williams **(Cadeirydd/Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, R. Meirion Jones, Llinos M. Huws, Bob Parry OBE FRAgS **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, Aled M Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 17 Chwefror, 2021.

**3** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 3 - 4)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol:-

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4** **APWYNTIO STAFF** (Tudalennau 5 - 46)

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Ystyried y ceisiadau ar gyfer y swydd uchod.

Mae copiau o'r Disgrifiad Swydd, y Manylion Personol a ffurflenni cais ynghlwm.

# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod Rhithiol a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, A M Jones a R Meirion Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Llinos Medi Huws |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol ar gyfer eu cadarnhau:-

- Cadarnhawyd cofnodion diwygiedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2020.

- Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr, 2021 yn amodol ar y canlynol:-

  Holodd y Cynghorydd K P Hughes am ganlyniad ei ymholiad mewn perthynas â chofnodion. Ymatebodd y Cadeirydd gan nodi ei fod wedi trafod y mater â'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'i fod wedi'i gynghori y dylai'r Pwyllgor drafod y materion sydd ar yr Agenda a bod cofnodion yn adlewyrchu'r gweithredoedd sy'n codi.

  Roedd y Cynghorydd Aled M Jones yn ystyried y dylid hefyd cofnodi'r materion mwyaf sylweddol.

  Nododd y Cynghorydd T Ll Hughes MBE, os oes gan unrhyw Aelod o'r Pwyllgor unrhyw bryderon mewn perthynas â'r cofnodion y dylent gysylltu â'r Cadeirydd yn y lle cyntaf er mwyn mynegi unrhyw bryderon o'r fath a hynny cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

  Cynigiodd y Cynghorydd Richard A Dew fod y cofnodion yn gofnod cywir ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgs.

Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor drwy bleidlais mwyafrif y Pwyllgor fod y cofnodion yn gofnod cywir.

Nododd y Cynghorydd Aled M Jones a K P Hughes nad oeddent yn cytuno â barn y mwyafrif mewn perthynas â'r cofnodion.

## 3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 4 PENODIADAU STAFF

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Adroddodd y Prif Weithredwr, yn unol ag Argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 7 Ionawr, 2021, yr hysbysebwyd y swydd hon ar sail barhaol.

Adroddodd y Prif Weithredwr, o ganlyniad i ddadansoddiad rhestr fer annibynnol, ei fod yn cael ei argymell bod cam nesaf y broses recriwtio yn mynd rhagddo a bod rhestr fer yn cael ei llunio. Cafodd ei argymell i'r Pwyllgor Penodiadau y dylid dilyn yr un broses a gafodd ei dilyn â nifer o benodiadau eraill diweddar sef proses tri cham o:-

- Gynnal cyfweliad proffesiynol rhwng y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol.
- Cyfweliad allanol gyda Gatenby Sanderson yn seiliedig ar broses brofi seicometrig
- Cyfweliad Pwyllgor Penodiadau er mwyn gallu gwneud dewis yn dilyn rhoi ystyriaeth i adroddiad llafar ar y cyfweliad proffesiynol a'r broses brofi seicometrig.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi argymhelliad y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r rhestr fer ac i ddilyn y broses tri cham fel y nodwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r mater.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

***(Teitl yr Adroddiad / Title of Report)*** ***Staff Appointments***

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 12, 13, 14 Act 1972 | Atodlen 12A Deddf<br>Schedule 12A Local Government |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
| Mae hwn yn fater sy'n effeithio ar strwythur rheoli'r Cyngor ac, fel y cyfryw, mae gan y cyhoedd ddiddordeb uniongyrchol mewn cael eu hysbysu am faterion sy'n ymwneud â darparu, cost ac effeithionrwydd gwasanaethau yn cynnwys arbedion sy'n ymwneud â'r rheini.<br><br>This is a matter which affects the Council's management structure and , as such, the public has a direct interest in being informed about matters which relate to the delivery, cost and efficiency of services including savings relating thereto. | Mae yna ddisgwyliad cyfreithiol y bydd materion sy'n ymwneud â gweithwyr unigol y Cyngor yn cael eu trin yn gyfrinachol. Mae gan y Cyngor ddyletswyd o ymddiriedaeth a hyder mewn perthynas â'i ymwneud â'i staff ac mae'r wybodaeth yn yr adroddiad sydd ynghlwm. Mae i'r adroddiad oblygiadau cyflogaeth i'r swyddogion sy'n cael eu heffeithio ac fe all toriad dianghenriad mewn cyfrinached adael y Cyngor, fel cyflogwr, yn agored i gamau cyfreithiol.<br><br>There is a legal expectation that matters relating to individual employees of the Council are to be treated confidentially. The Council has a duty of trust and confidence in relation to its dealings with its staff and the information in the attached report. This report has employment implications for those Officers affected and any unnecessary breach of confidentiality may leave the Council, as employer, open to legal action. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na/llai na* budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. [* - dilëwch y geiriau amherthnasol]<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs/does not outweigh* the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate] | |

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank